*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **21 Medi 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod Tân ac Achub** |
| Swyddog Cyswllt | **Llinos Gutierrez-Jones, Pennaeth Adnoddau Dynol** |
| Pwnc | **Proses Benodi ar gyfer Swydd Prif Swyddog Tân** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cynghori Aelodau o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y trefniadau ar gyfer recriwtio ar gyfer swydd Prif Swyddog Tân (PST).

**ARGYMHELLIAD**

2 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) Nodi'r broses sydd wedi'i hamlinellu isod; a
ii) Chadarnhau aelodaeth y pwyllgor penodiadau.

**CEFNDIR**

3 Ar ôl pum mlynedd yn y swydd a 32 mlynedd yn y sector Tân ac Achub, mae'r Prif Swyddog Tân wedi cyflwyno hysbysiad i nodi ei bwriad i ymddeol ar 31 Rhagfyr 2026.

4 Y bwriad yw dechrau chwilio am olynydd cyn gynted â phosibl fel y gellir dewis Prif Swyddog Tân newydd cyn etholiadau Llywodraeth Leol a threfniadau llywodraethu newydd 2027, ac i gael cyfnod pontio a throsglwyddiad llyfn.

**GWYBODAETH**

5 Yn unol â phob penodiad i'r tîm o Brif Swyddogion, mae swydd y Prif Swyddog Tân yn benodiad gan Aelodau. Bydd angen cynnull pwyllgor penodi ac iddo chwe Aelod, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, a Swyddogion yr Awdurdod. Byddant yn cael gwybodaeth am y broses asesu ac yn cyfweld â'r holl ymgeiswyr llwyddiannus ar y rhestr fer. Bydd y pwyllgor penodiadau yn nodi pa ymgeisydd y maen nhw'n ei ffafrio, ac yn gwneud argymhelliad i'r Awdurdod.

6 Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu ar wefan Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân er mwyn denu ymgeiswyr sydd â chymwysterau addas. Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu gyda'r disgwyliad y bydd gofyn i ddeilydd y swydd weithredu ar lefel y Drefn Reoli Aur. Gan gydnabod ei bod yn swydd Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Tân, bydd yn rhaid i ymgeiswyr heb gymhwyster y Drefn Reoli Aur gyrraedd y lefel honno o fewn amserlen benodol.

7 Yn yr un modd, bydd yn ofynnol i ddeilydd y swydd feddu ar naill ai sgiliau Cymraeg Lefel 3 neu gyrraedd y lefel honno o fewn amserlen a bennir.

8 Bydd y broses benodi yn seiliedig ar y broses asesu a ddefnyddiwyd yn 2021 i benodi i rôl PST. Fodd bynnag, am nad oes cyfyngiadau Covid bellach, rhagwelir y bydd yr asesiad a'r cyfweliadau terfynol yn cael eu cynnal yn bersonol yn hytrach nag ar y we. Mae hefyd yn rhoi cyfle i gynnwys paneli o randdeiliaid mewnol ac allanol yn y broses ddethol.

**AMSERLEN ARFAETHEDIG**

9 Mae'r amserlen arfaethedig ar gyfer y broses benodi fel a ganlyn:

- Hysbyseb i'w gosod erbyn 4 Medi 2026
- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 25 Medi 2026
- Rhestr fer a gwahoddiad i asesiad cychwynnol erbyn 30 Medi 2026
- Asesiad swyddogion i'w gadarnhau
- Pwyllgor penodi ar 16 Hydref 2026
- Cadarnhau'r penodiad yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 19 Hydref 2026.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim goblygiadau |
| Cyllideb | Mae'r cyllid ar gyfer y swydd hon o fewn y gyllideb bresennol |
| Cyfreithiol | Penodiad gan yr Aelodau fel y nodir yn y Cyfansoddiad |
| Staffio | Penodi i swydd statudol bresennol er mwyn darparu rota dyletswydd barhaus |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Yn agored i bob ymgeisydd cymwys. Sgiliau Iaith Gymraeg Lefel 3 ar adeg yr apwyntiad neu i'w caffael o fewn 24 mis |
| Risgiau | Diffyg ymgeiswyr y gellir eu penodi |